



Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ymddeoliad Hyblyg

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Pwynt i'w nodi.....	3
Beth yw ymddeoliad hyblyg?	3
Beth yw'r meini prawf ar gyfer ymddeoliad hyblyg?	3
Beth a olygir gan ganiatâd cyflogwr?	4
Pa fuddion a delir os ydych yn cymryd ymddeoliad hyblyg?	4
A fydd eich pensiwn yn is os ydych yn ymddeol cyn oedran ymddeol arferol?	4
A fyddwch dal yn gallu talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?	5
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	5
Ymwadiad.....	5

Cyflwyniad

Gall ymddeol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fod yn gam mawr a gall fod yn anodd gwybod os ydych yn barod i ymddeol. Mae ymddeoliad hyblyg yn rhoi'r cyfle i chi symud yn raddol i ymddeoliad trwy ostwng eich oriau gwaith neu symud i swydd gradd is.

Pwynt i'w nodi

Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro mai'r oedran ymddeol isaf yw 55 oed ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych angen cymryd eich pensiwn yn gynt oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y Cynwyd hwn os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd fod wedi'ch gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i'r Cynllun, os yw rhai amodau penodol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi'n tynnu eich pensiwn CPLIL y byddwch chi'n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu ichi dynnu eich pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Lle mae 55 yn cael ei nodi ar weddill y daflen ffeithiau hon, cofiwch y bydd hyn yn newid i 57 o 6 Ebrill 2028.

Beth yw ymddeoliad hyblyg?

Gallwch gymryd y buddion pensiwn rydych wedi eu cronni hyd yma gyda chaniatâd eich cyflogwr a pharhau i weithio i'r un cyflogwr wrth ostwng eich oriau gwaith neu mewn gradd is.

Beth yw'r meini prawf ar gyfer ymddeoliad hyblyg?

Gellir ond ymgeisio am ymddeoliad hyblyg os ydych:

- yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn; a
- mae gennych ddwy flynedd neu fwy o aelodaeth CPLIL (a allai gynnwys trosglwyddo buddion pensiwn blaenorol o gynllun arall)

Mae rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn golygu y dylai bob cyflogwr gael polisi yn cadarnhau os byddant yn ystyried ceisiadau am ymddeoliad hyblyg. Yn ôl y gyfraith, nid oes rhaid i'ch cyflogwr gynnal ymddeoliad hyblyg.

Beth a olygir gan ganiatâd cyflogwr?

Rydych angen caniatâd eich cyflogwr i ostwng eich oriau gwaith neu radd er mwyn i chi ymddeol o dan reolau ymddeoliad hyblyg. Rhaid i'r cyflogwr ystyried bob cais a'r effaith ar ddarparu gwasanaeth ac unrhyw gostau posib sy'n gysylltiedig cyn gwneud penderfyniad.

I wybod mwy am bolisi eich cyflogwr, cysylltwch ag Adran AD eich cyflogwr.

Pa fuddion a delir os ydych yn cymryd ymddeoliad hyblyg?

- eich pensiwn blynyddol; a
- mae gennych y dewis i droi rhan o'r pensiwn hwn yn gyfandaliad untro

(Os daethoch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar neu cyn 31 Mawrth 2008, byddwch hefyd yn cael cyfandaliad di-dreth awtomatig fel rhan o'r buddion a gronnwyd hyd at y dyddiad hwn).

I wybod mwy am gyfnewid pensiwn blynyddol am arian di-dreth, edrychwch ar ein taflen ffeithiau 'Cymryd Cyfandaliad Di-dreth pan fyddwch yn Ymddeol' yn **adran ffurflenni ac adnoddau** ein gwefan.

A fydd eich pensiwn yn is os ydych yn ymddeol cyn oedran ymddeol arferol?

Eich oedran ymddeol arferol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw naill ai eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu 65 oed, pa un bynnag yw'r hynaf. Yr oedran cynharaf y gallwch ymddeol yw 55. Os ydych yn cael eich buddion ymddeoliad hyblyg cyn eich oedran ymddeol arferol, bydd gostyngiad ar gyfer y taliad cynnar.

Fodd bynnag, os ydych wedi dechrau talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar neu cyn 30 Medi 2006 ac mae eich cyflogwr yn caniatáu i chi ymddeol yn hyblyg rhwng 55 a 60 oed, byddwch yn gymwys i gael eich gwarchod o dan y Rheol 85. Mae hyn yn golygu na fydd y buddion a gronnwyd gennych cyn 1 Ebrill 2008 yn cael eu gostwng ar gyfer taliad cynnar.

Os ydych wedi dechrau talu eich cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar neu ar ôl 1 Hydref 2006, ni fydd Rheol 85 yn berthnasol, a bydd eich buddion yn gostwng ar gyfer taliad cynnar. Fodd bynnag, yr agosaf ydych at eich oedran ymddeol arferol pan fyddwch yn ymddeol, yr isaf fydd y gostyngiad i'ch buddion.

Pan fo Rheol 85 yn cael ei ystyried gyda'ch buddion pensiwn ymddeoliad hyblyg, ni fydd yn berthnasol i unrhyw fuddion pensiwn newydd a gronnir gennych yn y dyfodol.

Ar gyfer mathau eraill o ymddeoliad heblaw ymddeoliad hyblyg, gall eich cyflogwr ddewis defnyddio Rheol 85 rhwng 55 a 60 oed. Bydd angen i chi gysylltu â nhw i wybod beth yw eu polisi ar hyn.

Os hoffech wybod mwy am Rheol 85 a'r gostyngiadau a allai fod yn berthnasol, darllenwch trwy ein taflen ffeithiau Rheol 85 yn yr **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.

A fyddwch dal yn gallu talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?

Ar ôl i chi ddechrau cael eich buddion ymddeoliad hyblyg, byddwch yn dechrau talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn awtomatig eto os:

- yw eich contract cyflogaeth newydd am dri mis neu fwy, a
- rydych o dan 75 oed

Byddwch yn dechrau cronni buddion pensiwn pellach. Eich oedran ymddeol arferol gyda'r pensiwn newydd hwn fydd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Os yw'r oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn newid yn y dyfodol, bydd eich oedran ymddeol arferol yn y CPLIL hefyd yn newid.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@sirymfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.